Cyfres Llanbedr | Gorffennaf 1932. | Cyf. 32. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. — Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Rhifyn Coffa
Y Parch.
T. Arthur Thomas
Llandysul.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. Gorffennaf, 1932. Cyf. XXXII. Rhif 7.

Y Parch. T. Arthur Thomas.

BLIN iawn i gylch eang cyfeillion ac adnabyddiaeth y Parch. T. Arthur Thomas a fu'r newydd am ei farw cynnar ar yr 8fed o Fehefin, yn y 64ain mlwydd o'i oedran. Ni fu ei iechyd yn foddhaol er's tipyn ; eithr tua mis cyn ei farw, tybid (gobeithid, o leiaf) y gwelid arwyddion ei fod ar y ffordd tua gwellhad. Disail a fu'r dybiaeth, diflannu a wnaeth y gobaith ; gwaethygodd yn fuan wedi hynny, a daethai fwy-fwy amlwg o ddydd i ddydd nad oedd gwellhâd i fod ; a daeth y terfyn ar y dyddiad a ennwyd.

Hanes â chryn dipyn o'r rhamantus yn perthyn iddo a fu ei hanes ; a phed ysgrifennid hanes cyflawn, cywir, gonest o'i fywyd, diddorol iawn a fyddai. Yma, ni ellir rhoddi ond amlinelliad prin o hono. Mab ydoedd i Mr. a Mrs. Jacob Thomas, gwehydd, Cwrtnewydd, ac yr oedd yn un o tua hanner dwsin o blant. O honynt, dim ond un sy'n fyw yn awr, sef, Mr. Evan Thomas, gynt o Abertawe, ond y sydd, er's tipyn, wedi ymddeol o'i fasnach, ac wedi gwneuthur ei gartref gyda'i frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith yn Llandysul. Perthynai Mr. Thomas, felly, i dylwyth a fu'n noddwyr selog a ffyddlon o'r mudiad Undodaidd yng Ngheredigion ymron er ei gychwyniad ; a phery nifer luosog o honynt yr un mor selog a ffyddlon yn amryw o'n heglwysi. Ar ddechreu ei yrfa, ei fwriad oedd dilyn yr un alwedigaeth a'i dad ; a bu am beth amser tan gyfarwyddyd ynddi ; eithr daeth awydd i fod yn ei fynwes i droi ei wyneb tua'r weinidogaeth, a thrôdd ei gefn ar y grefft wehyddol. Ar ôl tymor byr o rag-baratoad, aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1891, yr un pryd a'r Parchn. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, a James Ewart Jenkins, Ainsworth adeg ei farw.

Ar derfyn y cwrs arferol o bedair blynedd, yn 1895, derbyniodd wahoddiad i fod yn olynydd i'r diweddar Barch. Thomas Thomas ym Mhantydefaid. Yr un pryd, daeth Eglwys y Graig, Llandysul, tan yr un weinidogaeth. Derbyniodd yntau'r gwahoddiadau, a dechreuodd ar ei waith yn ddioedi. Nid anturiaeth i ymgymryd â hi 'n ddiystyriaeth ydoedd i ddyn ieuanc, dibrofiad bryd hynny, i ddilyn y fath gewri a Thomas Thomas, a William James, a Gwilym Marles. Eithr wynebodd ef yr anturiaeth gyda'r dewrder a fu'n nodweddiadol o hono aml i adeg wedi hynny ynghwrs ei yrfa. Yn fuan, enillodd ymddiriedaeth a pharch y ddwy Eglwys i fesur anghyffredin o fawr, a bu'n llwyddiannus iawn hyd y diwedd. Yn ystod ei weinidogaeth gwnaed aml i welliantau yn y ddau gapel—adnewyddwyd hen gapel Pantydefaid ymron yn llwyr; a heddiw, nid yn aml y gwelir adeiladau prydferthach ac addasach i'r dibenion na'r ddau hyn. Bu, hefyd, yn achos i ddwy Ysgoldy neu Neuaddau gael eu hadeiladu—un ym Mhantydefaid, y llall yn Llandysul. Adeiladau eang a chyfleus yw'r ddau, a di-ddyled.

Tu allan i ffiniau ei eglwysi, yng ngweithrediadau ei enwad, llanwodd le amlwg iawn, ac edrychid i fyny ato gan yr Eglwysi fel arweinydd y gellid rhoddi llwyr ymddiriedaeth yn ei gyfarwyddiadau doeth. Yr oedd fel pe wedi'i dorri allan gan Awdur ei natur i fod yn arweinydd; ac yn y goleu hwn yr edrychid arno, yn y cymeriad hwn yr oedd un o elfennau'i ragoriaeth a'i gryfder. Person anhepgorol ydyw hwn—yr arweinydd. Gall y meddyliwr meudwyol chwarae rhan bwysig yng nghynnydd y ddynoliaeth; yn wir, anhepgorol ydyw yntau hefyd; eithr heb yr arweinydd i gario ffrwythau'i fyfyrdodau a'i ddelfrydau i weithrediad, diffrwyth a fydd ei lafur. Dyna ydoedd Mr. Thomas, sef, arweinydd. Ys dywedodd un o'i aelodau wrthyf ddydd ei angladd, "Yr ydym wedi colli ein harweinydd." Arweinydd a fu ymhob cylch y bu'n troi ynddo. Ac ni fu heb brofion y gwerthfawrogid ei arweinyddiaeth. Bu ymhob safle o anrhydedd a fedrai'i enwad ei osod ynddynt—Ysgrifennydd y Gymdeithas Undodaidd am hir dymor, Llywydd yr un Gymdeithas, ei chynrychiolydd ar gyngor y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, Golygydd "Yr Ymofynnydd" am chwarter canrif ((ymddeolodd o'r swydd yn 1925 oblegid lluosogrwydd galwadau eraill arno). Yr oedd, hefyd, yn gerddor o safon uchel; a bu'n arweinydd y Gymanfa Ganu un llwyddyn—un o'r cymanfaoedd goreu y'i hystyrrid. Mynnych iawn y gelwid arno, hefyd, i feirniadu cerddoriaeth mewn Eisteddfodau lleol, a rhoddai'i ddyfarniadau fodlonrwydd cyffredinol. Yn y cysylltiad hwn, gellir sylwi iddo fod yn Llywydd un o oedfaon Cymanfa Gerddorol Ceredigion yn Aberystwyth rhyw dair neu bedair blynedd yn ôl. Meddai lais cryf fel y daran, peraidd er hynny; a disgynnai'i nodau ar glust y gwrandawr yn felys a

melodaidd rhyfeddol ; ac mewn Cymanfa, twŵr o nerth ydoedd i'r lleiswyr Basaidd. Nid oeddym ond megis newydd droi ymaith o lan ei fedd ddydd y Gymanfa yn Llanbedr ; ac yno y sylweddolais yn fwy nag oll mor fawr y golled ar ei ôl. Braidd na ddychmygwn glywed o honof ei lais soniarus yn uno yn y gân fel arfer. Dychymyg oedd hwn—gwag, o bosibl ; eithr pwy a fedr ameu ? Braidd yn beryglus ydyw honni bod unpeth yn amhosibl yn ein dydd ni—dydd dwyn dirgelion i'r goleu na freuddwydiodd neb amdanynt erioed o'r blaen. O daflu golwg dros a ddywedwyd, oni welwn mor fawr y golled i'n henwad a berwyd gan ei farw.

Ni ddarfu iddo, ychwaith, gyfyngu ei sylw a'i weithgarwch i'w eglwysi a'i enwad. Yn 1907, etholwyd ef gan ei blwyf yn aelod o Gyngor Sir Ceredigion, a bu'n aelod o hono hyd y diwedd. Yng ngwaith y cyngor, diwydrwydd a'i nodweddai ; ac enillodd serch ac ymddiriedaeth ei gyd-aelodau ; a phentyrrwyd anrhydedd ar ôl anrhydedd arno nes ymron dihysbyddu'r anrhydeddau a oedd yng ngallu'r Cyngor i'w rhoddi iddo. Bu'n Gadeirydd y Cyngor ddwy flynedd yn olynol ac o Bwyllgor Addysg y Sir ; yn aelod o'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cyngor, a Llywydd i nifer luosog o honynt. Nid atebai un diben imi roddi yma y manylion. Yng ngweithrediadau'r Cyngor, eto, fel yng ngweithrediadau'i enwad, enillodd iddo'i hun safle arweinydd i fesur mawr iawn ; ac edrychid i fyny ato gan ei gyd-aelodau fel arweinydd diogel a doeth. Cydweithredu oedd anianawd gryfaf ei natur ; eithr pan elwid arno gan lais dyletswydd i roddi mynegiad i'r nodyn croes, nid gyda thafod bloesg y gwnai hynny, eithr gyda llais clir dyn o benderfyniad na ellid yn hawdd ei droi'n ôl. Ac ymron yn ddieithriad, ef a'i bleidwyr a ddeuai allan o'r frwydr yn orchfygwyr. Nid atebai un diben imi alw i gof rai o'r brwydrau y bu ef â rhan flaenllaw ynddynt.

Mewn gwleidyddiaeth, rhyddfrydwr goleuedig ac argyhoeddiadol ydoedd ; ac nid arbedai mo'i hun pan ddeuai galwad am ei wasanaeth. I'r aelod presennol, Mr. Hopkin Morris, bu'n gyfaill a chefnogwr aiddgar. Mynych iawn y gelwid am ei wasanaeth ar y llwyfan gwleidyddol, yn enwedig adeg etholiadau ; a dadleuai dros a gredai mewn ysbryd mor deg, a chyda'r fath nerth apeliadol, a gludai argyhoeddiad i feddwl a chydwybod y gwamal a'r ansefydlog ei farn.

Bu'n gyfrwng, mewn cydweithrediad ag eraill, i sefydlu cangen o Urdd y Rhyddfeisiwniaid yn Llanbedr. Ef a fu'n gaplan iddi hyd yn ddiweddar, pan ymddiswyddodd ar ei ddyrchafiad i Brif Swydd y Gangen. Daeth nifer luosog o'i gyd-aelodau i'w angladd ; aethant yn orymdaith heibio ei fedd agored, gan daflu ysbrigyn o'r munudlys ar wyneb yr arch, yr arwydd arferol o barch pan fo marw aelod o'r Urdd.

Bu Mr. Thomas yn nodedig, nid yn unig ar gyfrif lluosogrwydd y galwadau am ei wasanaeth yn y cylchoedd y bu'n troi ynddynt, eithr ar gyfrif ei gymeriad uchel hefyd. Byw ar yr uchel-fannau a geisiai wneuthur ; a credaf lwyddo o hono i fesur rhyfeddol o fawr. Ac o'i gymeriad uchel tarddai dylanwadau pell-gyrhaeddol eu heffeithiau. Tra'n sôn am y dylanwadau a darddodd o'i fywyd, ni allaf ymatal rhag enwi unpeth neillduol y gellir ei briodoli, nid iddo ef yn unig, mae'n wir, eithr iddo ef i fesur mawr iawn, sef, bod Ceredigion, heddiw, yn rhyddach nag y bu erioed o'r blaen o ragfarnau sectol, dall-bleidiol, yn erbyn yr enwad yr arferai pawb ymron ei ddiarhebu. Perthyn iddo ef ran fawr o'r clod am hyn, oblegid dod o hono i gyffyrddiad mor agos â phobl o ddaliadau gwahanol i'r eiddom ni. Melltith pob cymdeithas ydyw rhagfarn, yn enwedig rhagfarn yn ei gysylltiad â chrefydd ; a'i elyn gwaethaf, a'i dinystria'n raddol, ydyw cymeriad. A dyn-garwr ydyw ef a gyfranna rywfaint, leied y bo, tuag at ei lwyr ddifodiant. Dyled fawr iawn yw'n dyled i Mr. Thomas am a wnaeth yn y cysylltiad hwn.

Syml ddigon ydyw'r gweddill o'r hanes. Yn 1903, ymbriododd â Bessie, merch y diweddar Barch. W. James, B.A., a Mrs. James. Bu iddynt ddau o blant ; ohonynt nid oes ond un yn fyw—Gwilym. Pan fu marw ei frawd Dafydd a'i briod, a gadael ohonynt ferch, Nancy, mabwysiadwyd hi gan Mr. Thomas a'i briod. Cyfeiriwyd eisoes at ei un brawd y sy'n fyw. Heblaw hyn, y mae iddo nifer luosog o berthynasau agos yng Nghwrtnewydd a Thalgarreg a chymdogaethau eraill.

Y dydd Sadwrn dilynol y bu ei gladdedigaeth, ym Mhantydefaid, a daeth tyrfa anferth ynghyd fel arwydd o barch iddo. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. H. Mason (W), a David Rhydderch (A). Yn y capel arweiniwyd y gwasanaeth a thraddodwyd anerchiad gan ei hen gyfaill ac athro, y Parch. D. Evans, diweddar o Gribyn. Cymrwyd rhan yn y capel, hefyd, gan y Parchn. E. O. Jenkins ac S. E. Bowen. Ar lan y bedd gweddiwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ; a gorffennwyd trwy i Gaplan y Rhyddfeisiwniaid (y Parch. E. M. Davies, ficer Llanedi, gynt Llandysul) ddarllen gwasanaeth claddu arbennig yr Urdd. Yna, rhaid a fu inni droi oddiwrth y bedd agored, a ffarwelio, "hyd oni wawrio'r dydd, a chilio o'r cysgodau."

D.E.

Y Parch. T. Arthur Thomas.

FEL DYN CYHOEDDUS.

FE ddywedodd rhywun mai mab ei oes yw pob dyn, ond bod gan yr oes, fel pob hen wraig arall, ddau fath o blant—y mwyafrif o honynt yn byw arni heb roddi dim iddi, ac ambell un yn byw i'w gwasanaethu a'i chynorthwyo. Heb os nac onibai perthyn i'r dosbarth olaf wnai ein hen gyfaill y Parch. Arthur Thomas.

Am dros chwarter carif bu yn aelod difwlch o Gyngor Sir Ceredigion—Sir ei eni, a Sir y gwnaeth gymaint drosti mewn llawer cyfeiriad. Yn flaenorol i hynny cafodd beth profiad o fywyd cyhoeddus fel aelod o Fwrdd Gwarcheidwaid Dosbarth Castell Newydd. Ac nid aelod cyffredin o Gyngor Sir ydoedd chwaith, ond un o'r "hoelion wyth". Bu ei weledigaeth glir, ei argyhoeddiad dwfn, a'i brofiad helaeth o fawr fantais pan yn ymdrin â phynciau anhawdd a dyrys. Ac yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn cynhyddu mewn pwysigrwydd—ac mewn maintioli o ran hynny—wnaeth gwaith y Cyngor Sir. Gosododd Deddfau Seneddol diweddar lawer baich ychwanegol ar ei ysgwydd. I gyfarfod â'r dyledswyddau newydd hyn bu raid wrth lawer iawn o ad-drefnu, ac yn y gorchwyl o ad-drefniant ni bu neb yn fwy blaenllaw na Mr. Arthur Thomas.

Yn ystod pum mlynedd ar hugain gwelodd lawer o gyfnewidiadau ym mywyd cyhoeddus y Sir. Nid oes yr un o aelodau y cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir yn aros ar dir y byw. Y mae amser fel rhyw lifeiriant cryf wedi eu cario o fyd o amser i'r byd anweledig. Mr. D. C. Roberts, Aberystwyth, ydyw "tad" y Cyngor heddiw, canys dewiswyd ef yn aelod ym mhen ychydig fisoedd ar ol sefydlu y Cyngor. Yn nesaf ato daw Mr. E. J. Davies, Cei Newydd, ac ar ôl hynny y Parch. T. Arthur Thomas, ond bellach wele yntau wedi myned drosodd at y mwyafrif mawr. C.M.—J.M.—Dr. Dan—Peter Jones—John Williams—Arthur Thomas—wele rai o'r cedyrn sydd erbyn hyn wedi syrthio!

"Eu henwau'n perarogli sydd,
A'u hun, mor dawel yw."

Llanwodd Mr. Thomas yn ei dro bob swydd o anrhydedd oedd gan y Cyngor i'w hestyn iddo. Bu yn Gadeirydd y Cyngor ei hun, yn gadeirydd y Pwyllgor Addysg, ac yn gadeirydd y mwyafrif o'r Pwyllgorau ereill. Fel cadeirydd dangosodd gryn lawer o fedrusrwydd, a chadwai urddas y gadair bob amser mewn golwg. Llwyddodd fel cadeirydd, yn un peth, am fod ganddo wybodaeth drwyadl

o'r "Standing Orders". Ond yn ychwanegol at y wybodaeth hon—gwybodaeth beirianyddol ar y gorau—meddai lawer o fedr i ddeall a thrin pobl. Geilw y Sais y beth hwn yn *tact*. Ac fe nodweddid bywyd Mr. Thomas—yn y gadair ac allan o'r gadair—gan *tact*. Efe oedd ein cynrychiolydd ar y Bwrdd Canol, y Brifysgol, y "Mental Hospital", y "County Councils Association", etc. Yn mhob un o'r cylchoedd hyn profodd ei hun yn ŵr o fedr a doethineb.

Cymerai ddiddordeb arbennig mewn cwestiynnau addysg, ac ystyrrid ef yn awdurdod arnynt. Ei ddelfryd a'i uchelgais oedd sicrhau yr addysg orau i blant y Sir, ac ni phallai byth a chodi ei lais o blaid unrhyw gynllun oedd a'i amcan i ddyrchafu safon addysg. Ond er ei fod yn un o garedigion pennaf addysg ni ellid ei osod ymysg y "*faddists*"—y dynion hynny sydd a chwilen yn eu pennau, ac yn mynnu cario eu mympwyon i'r eithafion. Cerdded canol y ffordd wnai Mr. Thomas, ac onid dyna'r llwybr diogelaf? Fwy nag unwaith, pan fyddai cwestiwn addysg o dan ystyriaeth, y clywais ef yn dyweyd fel hyn—"rhaid i ni ystyried y pwnc hwn ym mlaenaf oll o safbwynt y plentyn". Mynnai ef fel yr Athraw Mawr osod y plentyn "yn y canol". Bu yn un o Reolwyr Ysgol Sir Llandysul am gyfnod hir, ac yr oedd llwyddiant yr ysgol honno yn agos iawn at ei galon. Carai hi â chariad tad at ei blentyn. Yr oedd yn barod ac yn fodlon pe medrai gario yr ysgol hon ar ei gefn, fel y dywedir. Bu yna anhawsterau ar un cyfnod, ond gallwn ddyweyd i Mr. Thomas yn y cyfan wnaeth weithredu yn unol â'i egwyddorion, ac o'i syniad ef o'r hyn oedd yn iawn. Ac yr oedd yn un o'r rhai hynny oedd yn credu yr hen air "i bob dyn ei farn, ac i bob barn ei llafar". Hawliodd hynny iddo ei hun, ac yr oedd yn barod i ganiatau yr un hawl i ereill.

Tua dwy flynedd neu ragor yn ôl, pan ofynnodd y Bwrdd Addysg i'r Awdurdodau lleol dynnu allan gynllun o ad-drefniant er mwyn sicrhau gwell addysg i blant rhwng un-ar-ddeg a phedair-ar-ddeg oed, bu raid i ninnau yn Sir Aberteifi fel siroedd ereill drefnu ein cynllun a'i anfon i'r Bwrdd Addysg yn Llundain. Teimlai caredigion addysg er's peth amser mai'r *link* wannaf yng nghadwyn addysg elfennol oedd hyfforddiant priodol i'r plant o'r oedran wyf wedi enwi. Bu Deddf Addysg 1918 a'r "Haddow Report" yn 1924 yn foddion hefyd i dynnu sylw at y diffyg hwn. Paratodd y Cyfarwyddwr Addysg gynllun ar gyfer ein Sir ni. Bu y cynllun o dan sylw droion, ac yr wyf yn cofio yn dda am un cyfarfod lled hwylus a gynhaliwyd yn Llanbedr. Yr oedd Mr. Thomas a minnau wedi cymryd rhan weddol flaenllaw yn yr ymdrafodaeth. Ar y ffordd adref o'r cyfarfod trodd Mr. Thomas ataf yn ddisymwth, a chan fy nghyfarch fel "E.J." yn ôl ei arfer, meddai, "os yw y trefniant newydd hwn yn debig o helpu plant Sir Aberteifi, ac yn enwedig plant yr ardaloedd gwledig, gwell i ni ei fabwysiadu."

Dyna mewn brawddeg grynhodeb o hanes Mr. Thomas yn ei berthynas âg addysg. Awyddai am sicrhau i'r plant yr addysg orau—nid yn unig er mwyn eu cyfaddasu ar gyfer brwydr fawr bywyd, ond er mwyn y diwylliant a'r mwynhad sydd yn perthyn i addysg ynddi ei hun. Lles y plant oedd mewn golwg ganddo pan yn dadleu dros gael athrawon medrus, ac ysgoldai iachus. Ac yn wir, onid dyma enedigaeth-fraint pob plentyn yn ein gwlad!

Cylch arall o waith wrth fodd calon Mr. Thomas oedd Pwyllgor Blwydd Dâl hen bobl. Ni feddylid am ddewis neb yn gadeirydd y Pwyllgor Lleol ond efe—rhyfyg ar ein rhan fyddai awgrymu neb arall. A phwy yn fwy addas nag efe? Ymwneud â phobl gyfyng eu hamgylchiadau—gwragedd gweddwon yn aml—wna y Pwyllgor hwn—er i ni weled aml un yn fodlon cyfaddef fod pethau y byd hwn yn brinach yn ei hanes nag oeddynt mewn gwirionedd. Gwn trwy brofiad am y gofal a gymerodd y Cadeirydd i sicrhau chwareu teg i'r rhai oedd ar lawr—y tlawd, yr amddifad, a'r weddw. Ac y mae yna luaws o'r rhai hyn heddiw yn bendithio ei enw, ac yn ei alw yn wynfydedig.

Ond o ran hynny, cymerodd Mr. Thomas ran amlwg yn mhob adran o waith y Cyngor. Pe gwnai gofod ganiatau gallwn ysgrifennu yn helaeth ar ei waith fel aelod o'r Pwyllgor Ariannol, Pwyllgor Iechyd, Pwyllgor y Ffyrdd, Pwyllgor er sicrhau gwell tai i lafurwyr amaethyddol, a'r llu Pwyllgorau ereill, y rhai sydd, yn iaith yr arwerthwr, bron yn rhy luosog i'w henwi. Ac yn y Pwyllgorau hyn y gwneir gwaith mawr y Cyngor Sir. Mynychai Mr. Thomas y Pwyllgorau yn rheolaidd, a rhoddodd o'i orau iddynt. Nid rhyfedd, erbyn edrych yn ôl, i'w iechyd gael ei amharu gan ei lafur diflino.

Gweinidog yr Efengyl oedd Mr. Thomas. Honna rhai pobl bod gwaith cyhoeddus o'r fath a gyflawnodd Mr. Thomas yn anghydnaws â gwaith un yn dal swydd o'r fath. Ond nid dyna ei farn ef. Edrychai ef ar bob gwaith oedd a'i amcan i wella cyflyrau pobl mewn unrhyw gyfeiriad fel gwaith cysegredig a santaidd. Ie, camsyniad yw torri bywyd yn ddarnau, a gosod y darnau hynny mewn "water-tight compartments". Un cyfanwaith organaidd yw bywyd, ac y mae y grefydd honno sydd yn rhy fach i gymryd o dan ei haden bopeth sydd yn dal berthynas â dyn ac â'i amgylchiadau yn annigonol.

Meddai ein cyfaill lawer o gymwysderau y dyn cyhoeddus. Yr oedd ei gorff lluniaidd, ei wyneb serchog agored, ei lais cyfoethog, ei foneddigeiddrwydd cynhenid, a'i degwch mewn dadl yn tynnu ein sylw ar unwaith. Yn ei farwolaeth cafodd ein Sir, ac yn enwedig Llandysul a'r cylch, golled drom, ac nid gorchwyl rhwydd fydd llanw'r bwlch. Chwith ydyw meddwl na cheir mwyach ei gwmni diddan, ei gyngor doeth, a'i arweiniad dewr. Gwerinwr ydoedd Mr. Thomas mewn yspryd a theithi, a gwerin ei Sir enedigol

a wasanaethodd ar hyd ei oes. Daeth enw "Arthur Thomas" yn enw teuluaidd ym mhob rhan o'r Sir, ac ym mhell y tu allan iddi.

Beth oedd dirgelwch ei lwyddiant? Dyna ydoedd yn ddiddadl—ei barodrwydd i aberthu ei gyfan ar allor gwasanaeth. Bellach, hoffwn feddwl am dano fel wedi ei symud i gylch uwch o wasanaeth, ac yn mysg y rhai sydd "yn ei wasanaethu Ef ddydd a nos yn ei deml."

Rheithordy, Bangor Teifi. E. J. DAVIES.

Y Parch. T. Arthur Thomas.

Y CÂR A'R CYFAILL.

"My Arthur, whom I shall not see
Till all my widow'd race be run;
Dear as the mother to the son,
More than my brothers are to me."

TENNYSON.

ARTHUR wedi marw! Y bachgen a oedd gynt yn bictwr o iechyd a nerth; y gŵr a oedd yn dalp o gadernid; dyn na wnai'r blynyddau ond ychwanegu at gryfder ei olwg a harddwch ei osgedd. Wedi marw; amhosibl! Naturiol cofio'r hen ddywediad:

"Ynfyd sôn am fedd i Arthur!"

Ond wele'r dderwen wedi syrthio; ac ambell gorsen ysig a oedd yn falch o'i chysgod wedi ei gadael ar ôl.

Nid hawdd i mi yn bresennol gyfleu'r meddwl a'r teimlad a ddaw o'i golli, o leiaf heb fod yn bersonol iawn; nid colled gwlad ond fy ngholled fy hun a dyn y deigryn i'm llygad; nid oes a wedda i gysegr mewnol hen gyfeillgarwch ond—distawrwydd. Felly, os am ddwedyd rhywbeth mewn geiriau, rhaid cadw at bethau arwynebol.

Maddeuer imi am gyffesu mai rhyw bedwar neu bump cyfaill calon sydd wedi bod gennyf erioed; y mae gennyf, diolch i'r nefoedd, gannoedd rai o gyfeillion caredig eraill, ond o gyfeillion bore oes, y cyfeillion mynwesol hynny na chawn afael ynddynt wedi'r deunaw oed, nid erys ond rhyw un neu ddau; y mae un arall wedi mynd.

Yr wyf yn ei gofio er y cyfnod pan oedd ef yn grwtyn o brentis yn Ffatri'r Waun, Talgarreg; a minnau'n hogyn yn yr ysgol gyfagos. Yr oedd fy mam a'i dad yn arddel perthynas o bell:

fel pobl y Ffatri, yr oeddynt yn disgyn o deulu'r Jacobiaid o ganolbarth y Sir. Byddaf weithiau 'n falch o goleddu'r syniad mai i'r un Jacobiaid y perthynai 'r hen Ddafis Castell Hywel; ond nid oes gennyf brawf, yn y byd, o hynny.

Cyn hir daeth amser ysgol ramadegol a choleg, iddo ef a minnau; credaf mai ei gymwysterau naturiol a droes wyneb Arthur Thomas i gyfeiriad y pulpud; fy methiant ar y maes aredig a'm gorfododd i droi fy ngolwg ar ryw orchwylyn rhwyddach na dilyn pâr o geffylau ar Lethr Du'r Hafod!

Pan oedd ef yng Ngholeg Caerfyrddin a minnau yn ysgol ramadegol y Ceinewydd, ac wedi hynny yng Ngholeg Aberystwyth, y ffurfiwyd rhyngom y cyfeillgarwch hwnnw a barhaodd drwy'r blynyddau; cyfeillgarwch nas detyd angau ei hun. Bachgen siriol, hardd, a llawen oedd; ffefryn gan bawb; heb wenwyn eiddigedd yn ei natur; un i fod yn boblogaidd oedd; ac fel y bu drwy ei oes—yn foneddwr i'r carn—mewn gweithred, mewn gwisg ac mewn gwedd.

Pa ryw fechgyn braf oedd yng Ngholeg Caerfyrddin yr adeg honno—James ac Enoch Jenkins—dihafal am ddweyd stori ddigri,—Jenkin Thomas, urddasol a meddylgar—E. J. Russell, cryf ei gynheddfau—(yn awr Syr E. J. Russell, awdurdod byd-eang a'r fferylleg amaethyddol)—ac Arthur Thomas; i gyd wedi mynd,—ond un!

Ar ein gwyliau yn Nhalgarreg, y Ceinewydd neu Landysul, y byddem yn arfer cyfarfod y dyddiau hynny. Yr oedd rhyw atyniad rhyngom ein dau—Arthur a minnau—sy'n gyffredin rhwng pethau (a bodau) hollol anhebig i'w gilydd. Yr oedd ganddo bron bob dawn nas meddwn i; yr oedd gennyf finnau lawer o bethau na honnai yntau ei fod yn berchen arnynt.

Yr oedd ynni ei gorff; ei ddoniau cymdeithasol; ei hoffder o gwmni; a hoffder pawb o'i gwmni yntau yn tueddu i'w gadw allan o'i fyfyrgell. Yr oedd ei gyfrolau ef yn rhodio oddiamgylch—ar y maes a hyd yr heol. Astudiodd rhain yn fanwl ac yn eiddgar drwy ei oes; a daeth yn feistr yn ei wybodaeth ohonynt. Dyn yr awyr agored oedd; ac i mi yr oedd ei gwmni bob amser fel anadl rhosydd y wlad; nid damwain oedd enwi ei breswyl yn Llandysul yn Awelon.

Nid yn y fyfyrgell y lluniodd ei bregethau gorau—fel Athraw mwy a fu o'i flaen—yn y meysydd ac ymysg dynion cyffredin y cafodd eu defnyddiau; yr oedd ei anerchiad difyfyr yn aml iawn yn fwy effeithiol na'r bregeth a baratoisai. Yn fwy na dim—efe ei hun oedd ei bregeth fwyaf nerthol—a dylanwadol. Mae ambell un sydd fel angel yn y pulpud; ond unwaith y daw i waered a rhodio ymysg dynion, druan ohono—a gwaeth fyth, druan ohonynt! Gwareded y nefoedd ni rhag yr angylion papur mewn bocs pren!

Ond dyna—wedi dechreu gallaswn ysgrifennu cyfrol hir ar y gwmniaeth ddifyr a gawsom—ef a minnau ganol dydd a hanner nos ar lannau Cerdin, a Theifi, Môr Ceredigion—a hyd yn oed ar lannau'r Seine! Gymaint o siriol deb a charedigrwydd a dderbyniais ar ei law, ac ar law ddiwyd ei gymhares dirion!

Mor wâg i mi mwy fydd hen bentref Llandysul! Ofer edrych am ei gwmni i'm nerthu a'm hysbrydoli yn fy oriau gweinion. Ond—wedi i'r gafod ddagrau fyned heibio—canys am brynhawn yr erys wylofain—gwelir yn fwy clir nad yw Arthur wedi marw—mae Llandysul—mae Ceredigion yn tystio ei fod yn fyw—a'i fywyd yn myned ar gynnydd!

Aberthodd ei gorff cryf a lluniaidd ar allor gwasanaeth ei gyd-ddynion—ond erys ei ysbryd yn fflam i buro bywyd ei bobl.

SARNICOL.

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS.

Os Arthur wnaeth anturio—i wella'i
Afallon mewn amdo,
Ein gwas hardd, ei neges o,
A'i gennad ni thrig yno.

CRIBIN BACH.

ER COF AM ARTHUR.

ANNIDDIG Ceredigion—a'i eisiau
Wêl Llandysul weithion:
Gŵr hynaws, hawddgar, union—
Yn ei dud yn Gennad Ion.

Mawredd yn ei gymeriad,—i'w nos-
wyl
Tywysog ei enwad:
Gwerin a ŵyr ei gariad—
Daioni'i lef—"*dyn ei wlad*".

Dewr ei lef ond mab tangnefedd—
Arthur,
Nerthol o blaid rhinwedd:
Cennad Iôn a'r Gwirionedd,
MAE'N FYW, *er yma'n ei fedd.*

HEN FFRIND.

Llwybr y Mynydd.

AR brydiau, gorfodir fi, gan hiraeth, i gilio rhag berw'r dref, a chwmni dynion. Anturiaf, wedyn, o'r sŵn i'r swyn sydd ar lethrau cynhefin i mi.

Mewn hwyl, ar nawn o hamdden, cerddais drwy goedwig dewfrig, ar lethr, nes dringo dros glawdd o gerrig. O'm blaen, ymledai llain o dir dan orchudd trwchus o fieri. Cuddid eu drain gan flodau o binc a gwyn. Tyfent yn anniben ar draws fy llwybr. Yn gymysg ac yn drwchus ar y llawr gorweddai'r eithin yn ei flodau melyn.

Wedi brwydro'n galed â'r drain deuthum allan i ben fy llwybr. Lluniwyd ef gan genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o ddefaid. O'm deutu codai rhedyn gwyrdd, gwan, o'r ddaear dan ludw. Braidd na chlywyd y dail yn agor eu modrwyau yn nhes yr haul.

Ust! Dyma sŵn dieithr—"Hi - - ss! Hi - - ss!" Dacw neidr, unlliw â'r rhedyn, yn dianc gan wanu ei ffordd yn gyflym tua'i noddfa. Denwyd hithau gan y gwres i dorheulo am encyd mewn tawelwch.

Ar fyr, cyrhaeddais lwybr coch a ŵyrai ychydig i'r dde cyn troi ohono ac esgyn dros lethr serth. Eisteddais yno i fwynhau'r olygfa. I'r pellter, ac i gyfeiriad y môr ymagorai dyffryn llydan. Balchiai yn ei ddolydd ffrwythlon a'i lechweddau toreithiog. Ar y godre nythai tref bwysig a phrysur. Cuddiwyd ei thyrau â niwlen hudolus. Trigai'r miloedd yno mewn lludded, heb amser nac awydd i ddringo'r ucheldir a meddu'r tangnefedd.

Wedi ail gychwyn fy nhaith dilynais y llwybr drwy hesg a brwyn ar gyfyl cornant. Bu hindda am gyfnod, a sychwyd ei chân a'i chymwynas. Ar flaen y ceunant sefais ar drothwy unigedd y mynydd, gan syllu i ganol y dieithrwch. Gwefreiddiwyd fi ar y pryd hwn â theimlad o orfoledd. Daeth gobaith ataf. Teimlais fod dirgelwch anhygoel wrth ymyl. Ond, diogel oeddwn. Mynegodd y distawrwydd hynny. Gorweddai Rhywun y tu ôl i'r gorchudd a osodwyd gan ofn, uchelgais a hyder fy nghalon.

Wedyn, meddyliais fod gan y coed, y llysiau, y creaduriaid, ac yn bennaf oll, dyn, eu lle, yn y dirgelwch helaeth ac ofnadwy hwn. Tyfais i gredu bod gennyf yma gymdeithas â phopeth cre-edig. Dyfnach ydoedd na meddwl a rheswm. Deuai yn neges o galon y byd gan gyhoeddi wrthym oll am aros a rhyfeddu, llonyddu a dadluddedu.

Wedi myfyrio am orig, cerddais eto gan ddod drwy gartref eang y grug. Amrywiai'r blodau mewn lliw, llun a maint. Crogent yn glychau bychain o borffor, ac yn fwy eu maint, o binc godidog. Yn brudd a gwylaidd gwridai tusw o rug gwyn ynghanol y pryd-

ferthwch. Dan gyffyrddiad yr awel murmurent yn dyner. Yn gymysg â'u sain hwy codai si hapus y gwenyn wrth deithio'n ddiwyd o flodyn i flodyn. Disgynnent yn llwythog o'u cynhaeaf melyn a melys. Mewn mannau, hefyd, ceid llin y mynydd yn fintai o flodau bychain, gwynion.

Yn uwch i'r mynydd, gwelais ddarn llyfn a llaith. O'r gors honno y llithrai'r gornant allan ar ei thaith. Tyfai brwyn, hesg, plu'r gweunydd a blodau'r tyweirch yn drwchus. Hardd odiaeth oedd canfod yr awel yn cyffwrdd a phlu'r gweunydd, a hwythau'n dawnsio megys cwmni o Dylwyth Teg.

Wrth lwybro ymlaen deuthum at fangre dan fantell o fwswg y mynydd. Ar y pryd, llwythid ef â ffrwyth coch. Tlws iawn oedd yr olwg arno yng ngwenau'r haul tanbaid.

Bellach, dyma fi ar le garw ac anial. Creigiog oedd wyneb y llwybr, a chlogfeini anferth o'r ddeutu. Ceid byrwellt llwyd a gwydn dros yr eangder hyd gorun y mynydd. Mewn mannau, ffrwythai'r llusi duon yn doreithiog.

I dorri ar yr undonedd daeth cân felys yr ehedydd ar fy nghlyw. Gwelais ef yn codi gan ddringo gris ar ôl gris nes imi ei golli. Ond, diferodd ei nodau o'm cylch. Wrth imi chwilio amdano, gwelais uwch fy mhen guryll megys ysmotyn o rŵd ar y ffurfafen lâs. Symudodd ei adenydd, a disgynnodd ar ei ysglyfaeth gyda chyflymder ergyd o ddryll.

O hyn ymlaen fy nghwmni fu cornicyll unig, chwibanogl amddifad a chwmni ofnus o betris. Terfais hefyd y nyddwr o'i gwsg. Mae ef yn un o'm cyfeillion pennaf. Droeon yr ymhyfrydais wrth ei weld, fin nos, ar adain yn ymloddesta ar bryfed y mynydd.

Wedi imi gyrraedd trum, torrais ar draws diadell o ddefaid. Dychrynwyd hwy nes iddynt wasgaru i bob cyfeiriad. Ar fyr, safasant gan droi i syllu arnaf. Ni welais, er's tro, lygaid craffach nac osgo fwy bygythiol. Tybiais iddynt fy herio'n ddidrugaredd.

Cerddais ymlaen. I'r dde yr oedd pant cyfyng, a chaer o gerrig amdano. I'm syndod, tyfai cwmni o goed preiffion yn y gilfach. Yn eu cysgod gorweddai haid o ddefaid gan gnoi eu cil yn hamddenol.

Weithian, dacw gopa'r mynydd. Brysiais dros y gweddill o'm taith, a'm bryd yn gryf ar yr olygfa. O'r pigyn uchaf hwn canfûm ramant anferth y tu mewn i'r gorwelion pell. Am dro, tybiais mae myfi oedd arglwydd y greadigaeth. Dychmygais glywed dyffrynnoedd a bryniau a mynyddoedd yn estyn ataf eu gwrogaeth. Lledai'r môr hefyd, yn y pellter, ei deyrngarwch i mi. Dros y tonnau gwênai'r haul ei anrhydedd arnaf.

Cyn hir, erlidiwyd fi o'm pinacl gan awel oer. Daeth cwmwl ar ei gwarthaf, ac yng nghysgod craig, sefais i wrando ar ru taran ac i wylio gwibiadau'r mellt.

J. S. Rees.

Dyffryn Cletwr Fach.

(*Parhad*).

YR oedd Thomas Humphreys yn Undodwr i'r carn, fel y dywedir; eto yr oedd mawrfrydigrwydd naturiol ei feddwl yn ei alluogi i ymestyn ymhell y tu hwnt i derfynau ei sect ac i barchu a mwynhau cymdeithas pob dyn o ba enwad a chredo bynnag y byddai, a dyma un rheswm neilltuol, tros ei fod yn sefyll mor uchel ym marn a theimlad ei gymdogion. Ffurfiodd gymeriad a oedd yn rhoddi pwyslais ar faterion o gytgord ymhlith y gwahanol enwadau, yn hytrach nag ar eu pwyntiau gwahaniaethol. Mynnai ei iawnderau ei hun, a pharchai iawnderau pawb ereill.

Yn y cysylltiad hwn yr oedd y teimlad o iawnder yn gryf iawn ynddo, yr hyn yn ddiau a achosodd iddo arddangos mwy o'r dynol, nag o'r sectol yn ei gymdogaeth. Cofier ef yn y dyffryn, nid fel Undodwr eithafol, ond fel dyn cywir, gonest, unplyg a llydan-feddwl.

Bu yn ddiacon selog yn Llwynrhydowen am flynyddoedd maith, a pharhaodd hyd nes iddo fethu, i fynychu'r gwasanaethau yno ar y Sul a gŵyl. Ni fyddai fawr o fynd ar yr Ysgol Sul a'r Cyfarfodydd Adloniadol oni fyddai Gweydd Penlôn yn bresennol. Cafwyd ef yn brin iawn mewn un peth, sef fel siaradwr cyhoeddus yn y capel. Pan elwid arno ymlaen i ddweyd gair yn yr Ysgol Sul neu mewn cyfarfod adloniadol, gwnai yn ddieithriad ufuddhau i'r alwad am ei fod yn credu mewn ufuddhau i orchymyn o'r pulpud neu'r gadair. Wedi symud ymlaen i gymeryd ei safle o flaen y gynulleidfa, safai i fyny'n syth gan gau ei lygaid a dyna'i wyneb wedi diflannu o'r golwg, tu ôl i'w farf hir a thrwchus ac wrth sylwi arno, yr oeddem, fel y tybiem ni y plant yn cael portread cywir o *Santa Claus*, a cheid anerchiad byr ganddo, o'r tu hwnt i'r llen fel petai.

Dywedir fod llawer o'n beirdd yr un modd. Dim ond un araith meddir a draddododd y bardd mawr a'r ysgolhaig, Robert Browning trwy ei oes, a thynnodd ben ar honno cyn pen dwy funud. Gallaf ategu yr hyn ddywedid am dano sef ei fod yn methu traethu ei farn yn glir pan fai'r Ysgol Sul yn "ateb pwnc", ond mewn dull o bennill, er hynny i gyd yr oedd ganddo feddwl treiddgar fel y dengys y pennill a gyfansoddodd mewn atebiad i ofyniad gan y gweinidog, "Dangoswch mai cariad yw Duw?" Fel hyn yr atebodd :—

"Fel hyn 'rym ni'n deall mai cariad yw Duw,
Wrth weld ei weithredoedd trwy'r byd o bob rhyw;
Mae popeth mewn natur yn dweyd yn ddiffael,
Fod Duw yn Dduw'r cariad a chariad mawr hael."

Ac eto i'r gofyniad gan y gweinidog : " Pa ddaioni i ni yw genedigaeth Crist ? " Atebodd fel hyn :—

" Mawr iawn y daioni gyfrannwyd i ddynion
Ar ddydd genedigaeth Iachawdwr y byd,
Pryd hyn, mewn gorfoledd y canodd angylion,
A lliaws y Nefoedd foliannent ynghyd ;
Mae'n sicr mai dyma yw bywyd Cristnogaeth,
Dan bob amgylchiadau, cysurus a blin,
Fod gyda hi Un yn drech na marwolaeth,
Boed hwnnw'n arweinydd i ninnau bob un."

Yr oedd yr achos yn y Llwyn yn agos iawn at ei galon. Yn ei ddyddiaduron, ac yr oedd ganddo gruglwyth o honynt, ceir aml gyfeiriad ynddynt at symudiadau a digwyddiadau mewn perthynas i'r achos yn y Llwyn. Llyfr cyfrifon cyffredin oedd ei ddyddiadur ac wedi iddo osod lawr holl ddigwyddiadau'r dydd, tynnai linell yn groes cyn dechreu rhoi lawr gofnodion drannoeth. Y mae rhai o'r dyddiaduron hyn ar gael yn bresennol ac y mae llawer o'r cofnodion sydd ynddynt yn ddiddorol iawn. Gosodir isod rai o honynt :—

" 1869, Ionawr 3.—Yn y cwrdd y prynhawn, Evan Thomas, Ffatri Crugeryr, yn pregethu."
" 1872, Awst 25.—Evan Ceredig Jones yn pregethu yn y Bwlch a'r Llwyn am y tro cyntaf."
" 1872, Hydref 27 (Sul).—William Davies, Cilrhiwe, yn pregethu am y tro cyntaf."
" 1872, Rhag. 9.—Cawsom storom anghyffredin neithiwr. Aeth y gwynt a chlwtyn o ben y tŷ bant. Nid wy'n gwybod dim i ble. Wedi holi a chwilio, dim sôn am dano."
" 1873, Chwef. 8.—Cael pen fy mlwydd (59)."
" 1873, Mehefin 1.—Evan fy mrawd o America yn pregethu yn y Bwlch y bore a'r Llwyn prynhawn."
" Mehefin.—Wm. Thomas (Gwilym Marles) yn mynd bant i Vienna."
" 1873, Awst 10.—Wm. Thomas (Gwilym Marles) yn pregethu yn y Llwyn wedi dod nôl o Vienna."
" 1876, Hyd. 29.—Yn yr ysgol y bore. Cwrdd tu faes i'r Capel yn y prynhawn. Mr. Wm. Thomas y gweinidog a'r ymddiriedolwyr wedi cael eu stopio i addoli yn y Capel."
" 1876. Tach. 19.—Addoli yn Tŷ'r Felin. Yr ysgol yn y gweithdy."
" 1876, Rhag. 9.—Mr. Jones, y Gelli yn prynu darn o dir gan Wm. Jones, Gelliaur, ddoe."

"1876, Rhag. 24.—Yn yr ysgol a'r cwrdd yn y Tŷ-coed newydd y tro cyntaf heddiw."

"1876, Rhagfyr 25.—Cyfarfod mawr yn y Tŷ-coed heddiw, o ddeg y bore hyd wyth yn yr hwyr."

Yr oedd yn hynod drefnus gyda'i symudiadau a'i ddyledswyddau ac yn fynych efallai ei fod yn dal yn rhy gyndyn wrth reol a threfn. Dechreuai yr oedfa bore Sul yn y Llwyn am ddeg, a chychwynai yntau o'r tŷ am ugain munud i ddeg i'r eiliad ac yn ôl ei drefn ef ei hun cyrhaeddai'r capel am ddwy funud i ddeg. Yr oedd y daith ychydig dros filltir. Fynychaf pan fai ar ei daith fore Sul gwnai gyfarfod â John Thomas, Glancletwr yn teithio i eglwys St. John—tua chwarter milltir gyda rhediad yr afon o Penlon Esger. Yr oedd John Thomas mor selog fel eglwyswr ag oedd Gweydd Penlôn fel Undodwr a phan gwrddent un bore Sul, awgrymodd John Thomas y byddai'n llawer gwell i Gweydd Penlôn uno â'r Eglwys Sefydledig yn St. John "oblegid" meddai "gwnai hynny eich arbed i gerdded trwy'r glaw a'r gwynt i'r Llwyn, ac yn chwaneg gwnaech deimlo eich bod yn adeiladu ar y "sylfaen fawr safadwy." Cauodd Gweydd Penlôn ei lygaid ar unwaith ac wele'i ateb :—

"John Thomas, Lancletwr, sydd ddyn hynod iawn,
Mae'n cyrchu i'r eglwys y bore a nawn,
Er hynny ni welir fawr gynnydd yn John,
Megis yr oedd yn y dechreu y mae'r awr hon
Ac y bydd yn oes oesoedd yn Eglwys St. John."

A meddai'r gŵr oedd yn gwrando ar yr ymddiddan "Fe'i llorioch e'". Ni fynnai ef mo hyn ; cauodd ei lygaid drachefn a datganodd ei deimlad fel hyn :—

"Mae ef yn ddyn hawddgar, bob amser yn llon,
Er culed ei gredo rwy'n ffrind iawn i John."

Gwelaf ef ar fin nos, tua wythnos cyn Nadolig, yn gwisgo am dano ei glogyn llwyd, yn tanio ei bibell ac yn cychwyn i gyfarfod adloniadol yn y Llwyn. Ac yn gyflym ei amsang a mwg y myglys yn gymylau tew o'r tu cefn iddo, ymddanghosai ymron fel agerlong yn cychwyn allan o borthladd Caerdydd. Ac wedi croesi y bont dros yr afon yn ymyl eglwys St. John, "Fachgen" meddai, "y mae rhyw fwstwr anghyffredin gan y gwynt yng nghoed y Rheol heno." Saif y Rheol ar lechwedd uchel ar yr ochr aswy i'r dyffryn. Nid oedd dim awel yn tramwy trwy lawrbant y dyffryn. Cauodd ef ei lygaid a chyfansoddodd a ganlyn :—

"Y mae gwynt afresymol yn swnio sia'r Rheol,
Mae yma'n gysgodol ryfeddol i mi ;
'Does dim eisiau clogyn wrth fyned trwy'r dyffryn
'Run tipyn ar undyn fo'n handi fel fi."

Yn achlysurol digwyddai iddo gyfarfod â un o feirdd dyffryn Cletwr Fawr ym Mhontsân a fynychaf gwnai hwnnw ymdrech i gael goruchafiaeth arno mewn pennill neu rigwm. Un diwrnod gofynnodd cyfaill iddo os y byddai cystal a "dala pen y ceffyl" tra fyddai yn trafod tipyn o fusnes yn y shop ac ufuddhaodd yntau. Yn y man dyma un o feirdd Dyffryn Cletwr Fawr yn ymddangos ac meddai mewn gwawdiaith noeth :—

"Y mae arwyddion eglur, mai araf yw'r gwaith gwlân,
Mae'r Gweydd o Benlôn Esger yn ostler ym Mhontshân."

Ac wele'r Gweydd yn ateb ar unwaith :—

"Cymydog sydd am funud yn shopa ar ei daith,
A dyna pam mae'n ostler, 'dyw'r Gweydd ddim ma's o waith."

Nid oedd Dyffryn Cletwr Fawr ddim yn agos mor doreithiog mewn beirdd a llenorion a Dyffryn Cletwr Fach.

GLAN GLOWON.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1932.

SIOMEDIG dros ben yw rhif yr ymgeiswyr yn yr arholiad eleni. Yr ydym wedi cynefino bellach a chael *un* ymgeisydd yn Safon IV., ond wele *un* ymgeisydd yn unig yn Safon III. eleni! Mae rhywbeth allan o le heb yr un amheuaeth, ond hwyrach mai ofer ceisio dyfalu beth yw'r achos. Hoffwn er hynny awgrymu eleni eto y medrai swyddogion y Gymdeithas o ymgynghori â'r athrawon a'r arolygwyr yn ein hysgolion Sul ddyfeisio rhyw gynllun i ail ennyn y diddordeb aeth ar goll.

Ar ôl ceisio llunio gofyniadau a darllen atebion am ddwy flynedd ar Efengyl Ioan rhaid i mi gyfaddef nad oes gennyf bellach fawr syniad am gymhwysder y maes hwn i blant. I rai mewn oed, a'r rhai hynny yn barod i astudio yn fanwl a darllen yn helaeth ar broblemau'r efengyl, byddai'r maes hwn yn eithriadol ddiddorol, ond unwaith y ceisir arwain y plant heibio y pethau arwynebol, mae'r gofyniadau ar unwaith yn myned yn galed. Rhywbeth yn debyg i hyna fu y profiad eleni gyda Safon IV. Un ymgeisydd oedd yma, a hi wedi ennill y bathodyn fel yr unig ymgeisydd y llynedd. Yr oedd ganddi bapur gwir dda y flwyddyn ddiweddaf. Ond yr oedd y gofyniadau dipyn yn galetach eleni, ac y mae yn

amlwg eu bod wedi peri rhyw gymaint o drafferth iddi. Er hynny gwnaeth ymgais dda, ac amlygodd ei bod o leiaf yn weddol gydnabyddus a chynnwys y penodau a ddewiswyd fel maes llafur. Hoffwn pe baem wedi cael gwell papur, ag ynddo arwyddion cynnydd, (credaf y medrai fod wedi gwneud yn well),—ond dyfarnwn hi yn deilwng o'r bathodyn.

Un ymgeisydd hefyd oedd yn Safon III. a cheir ganddo bapur rhagorol ar y cyfan. Ceir ychydig o frychau mân yma a thraw, ond gwna ymgais wir dda i ateb y gofyniadau a oedd yn gofyn am rywbeth yn rhagor na gwybodaeth arwynebol o gynnwys y penodau dewisedig, ond teimlir yma eto fod y *maes* yn hollol amhriodol, ac yn gyfryw na rydd gyfle i'r plentyn i ddysgu *gwers*, yn ychwanegol at lwytho ei gof ag adnodau. Mae y bachgen hwn yn haeddu'r bathodyn.

Ceir yn Safon II. ddeuddeg ar hugain o ymgeiswyr, a llawer iawn o amrywiaeth medr a gwybodaeth. Cynllun rhagorol oedd mabwysiadu eleni yr Holwyddoreg gan y Parch. D. Evans fel rhan o'r Maes Llafur. Crynhoir o fewn y llyfryn bychan hwn mewn ffurf syml a dealladwy swm dda o wybodaeth am fywyd yr Iesu ac am gefndir hanesyddol a daearyddol ei weinidogaeth. Gresyn na fyddai gennym lyfr cyffelyb at wasanaeth y plant hynaf. O'r deuddeg ar hugain ymgeiswyr yn y safon yma, mae nifer fechan wedi gwneud gwaith rhagorol iawn ymhob ystyr.

Gorchwyl annodd dros ben oedd penderfynu rhwng dau o Gapel y Cwm am y bathodyn. Ar ôl hir bendroni, trodd y fantol fel hyn—Margaret Jane Evans 126½ allan o 130. Tom Abel Jones 123 allan o 130. Ac yna yn dyn ar eu hôl daw Nancy Evans o Alltyplaca gyda 116 allan o 130 a Jack Jenkins eto o Gapel y Cwm gyda 111 allan o 130. Dyfarnwn y pedwar hyn wedi pasio gydag anrhydedd, a gwaith gwir anrhydeddus sydd ganddynt. Mae gan eraill waith gwir dda. Rhoddir hwy yn y Dosbarth Cyntaf, gyda marciau o 70 hyd 110.

Yn yr ail ddosbarth daw y rhai sydd wedi gwneud gwaith cymhedrol. Nid wyf am ddyfarnu yr un o honynt heb fod yn deilwng o dystysgrif ; ceir marciau ar bob papur i'r pwyllgor i'w hystyried.

Yr wyf am ddiolch eleni eto i'r plant i gyd am eu hymgais. Mae gwaith y goreuon yn Safon II. yn rhywbeth i ryfeddu a llawenychu am dano.

Gobeithio erbyn blwyddyn nesaf y bydd llawer yn rhagor o ymgeiswyr yn y Safonau uchaf. Mae yn werth gwneud ymgais wirioneddol i greu diddordeb yn y plant a fedr eistedd yn y safonau hyn.

T. L. Jones, *Arholydd.*

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1932.

SAFON I. DAN 10 OED.

ALLTYPLACA.—Evan Lloyd Davies; Rachel Jane Williams; Mary Elian Evans.

BRONDEIFI.—Margaret Hannah Mattie Williams; Gwyneth Davies; Margaret Mary Davies; Nancy Lee Dorothy Williams; Nellie Nora Evans;

CAERONNEN.—David John Jones; Letitia Jones.

CAPEL-Y-BRYN.—Timothy Dennis Davies; David Elgan Davies; Timothy Denzil Jones; John Iscoed Jenkins; Benjamin Ivan Jones; Jonathan Cecil Davies; Daff Price Davies; Betty Clarice Davies; Marie Thelma Evans; Megan Davies; Jennie Jones; Mary Ann Davies; Anna Beryl Jones; Jack Jones; Benjamin Bevan Jenkins; James Ronald Davies.

CAPEL-Y-GROES.—Stanley Thomas; Nellie Davies.

CRIBYN.—Moelwyn Davies; Rachel Eirlys Davies.

CAPEL Y GRAIG.—Nance Davies; Cerdin Davies; Dannie Jones; Dilys Jones.

LLWYNRHYDOWEN.—Gertie Hailes; Evan John Williams; Thomas Elfed Parry; William John Williams; William Richard Davies.

PANTYDEFAID.—Gwyneth Thomas; Nancy Lloyd Davies; Harriet Edith Heap; Gwinnie Eleanor Parry; Sarah Cerdyna Davies; James Wallace Thomas.

SAFON II. (AR LAFAR).

CAPEL-Y-GROES.—Ray Rees; Gwen Thomas; Mary Anne Jenkins; Iorwerth Aeron Jenkins.

CAPEL-Y-BRYN.—William Lloyd Jones.

CAERONNEN.—John Llewelyn Jones; Joyce Jones; Mary Myfanwy Jones.

BRONDEIFI.—Nancy Eluned Jones.

CRIBYN.—Thomas Aeron Williams; Willie Augustus Wood Harries; Moelwyn Owen.

CAPEL Y GRAIG.—Gwilym Ifor Thomas; John Glyn Davies.

CAPEL-Y-FADFA.—Gwyneth Evans.

LLWYNRHYDOWEN.—Tommy Dudley; Ieuan Jones.

SAFON III. AR LAFAR.

CRIBYN.—John Aeron Davies, Dewi Jones.

SAFON II. (YSGRIFENEDIG).

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—Margaret Jane Evans, Cwmsychbant (*Bathodyn*); Tom Abel Jones, Cwmsychbant; Nancy Evans, Alltyplaca; Jack Jenkins, Cwmsychpant.

DOSBARTH I.—Ray Davies, Caeronnen; Mary Hannah Davies, Y Graig; Blodwen Evans, Llwynrhydowen; Dilys Davies, Brondeifi; Margaret Jane Evans, Pantydefaid; Morwen Davies, Brondeifi; Sallie Evans, Pantydefaid; Nina Thomas, Pantydefaid; David Jenkins, Capel-y-Bryn.

DOSBARTH II.—Jenny Davies, Llwynrhydowen; Eunice Jane Evans, Alltyplaca; Margaret Anne Evans, Llwynrhydowen; David Tom Christmas Evans, Alltyplaca; Mary Jones, Capel-y-Bryn; Albert Hefin Price, Alltyplaca; Maggie Thomas, Bwlchyfadfa; Jennie Dilwen Jones, Bwlchyfadfa; Emma Leonard Pughe, Capel-y-Bryn; Blodwen Leonard Pughe, Capel-y-Bryn; David Tom Jones, Capel-y-Bryn; Elsie Hailes, Llwynrhydowen; Sarah Irina Davies, Capel-y-Bryn; Dan Henry Davies, Capel-y-Bryn; John James Heap, Pantydefaid; James Eric Evans, Capel-y-Cwm; Mary Hannah Evans, Pantydefaid; Myra Evans, Bwlchyfadfa; Margaret Richards, Capel-y-Cwm; Megan Brown, Bwlchyfadfa.

SAFON III. (YSGRIFENEDIG).

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—David Jacob Davies, Pantydefaid—(*Bathodyn*).

SAFON IV. (YSGRIFENEDIG).

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—Hannah Mary Davies, Graig—(*Bathodyn*).

Priodasau.

AR y 4ydd o Fehefin, yn Eglwys Dewi Sant, Llandysul, unwyd mewn glân briodas Evan Evans, mab Mr. a Mrs. Enoch Evans, Blue Bell, Cwrtnewydd â Sarah Vobe, ail ferch Mr. a Mrs. Ernest Vobe, Tanybrinc, Pontshaen.

MEHEFIN 18, yng Nghapel y Graig, Llandysul, o flaen y Cofrestrydd, Mr. John Jones, Bele Mill, Llanfihangel-ar-arth â Miss Elizabeth Thomas, merch ieuengaf y diweddar Mr. Thomas Thomas a Mrs. Thomas, Cross Inn Farm, o'r un plwy. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Marwgofion.

MAI 14, yn 76 oed, bu farw Anne Lewis, Plasbach, Ffynnonoer, Llanfihangel-ar-Ystrad. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da'n ddiweddar ond yr oedd ei chof gyda hi i'r diwedd a medrai adrodd hanes yr ardal. Benyw dawel a hirben ydoedd, yn caru Rhydygwin ac wedi ei fynychu tra gallai. Gadawodd ar ôl un chwaer heblaw perthynasau eraill. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Eglwys Rhydygwin, a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

BORE Iau, Mehefin 9, yn Cryngae, Penboyr, Mary Jones, gynt o Heolfeinog, Pontshaen, yn 76 oed. Bu'n byw'n Heolfeinog am flynyddoedd lawer gyda'i rhieni ac wedi hynny gyda'i brawd. Wedi hynny bu'n byw am rai blynyddoedd ym mhentre Pontshaen ond wedi i lesgedd ei dal symudodd i'r lle uchod at nai iddi a'i briod lle y cafodd bob gofal. Yr oedd yn gyfnither i'r diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago, a'i mam fu'n cario Jenkin yn faban i'r Cei Newydd pan oedd ei deulu'n ymfudo i'r Amerig. Benyw o anian garedig ydoedd hyd y caniatai amgylchiadau. Yr oedd yn aelod o Eglwys Llwynrhydowen ac hyd y gallodd dilynodd y gwasanaethau'n

lled ffyddlon. Gadawodd i weld ei heisiau frawd oedrannus, neiaint, a llawer o hên gymydogion. Claddwyd y Sadwrn dilynol yn mynwent Pantydefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a Ficer Penboyr.

MEHEFIN 15, ar ôl nychu'n hir Evan Thomas, Pantcoch Cottage, Talgarreg, yn 77 oed. Gadawodd dair chwaer a llawer o gyfeillion i weld ei eisiau. Mab ydoedd i'r diweddar John a Mary Thomas, Felin Rhydowen—yr oedd ei rieni ymhlith y rhai a drowyd allan o'u cartrefi ar ôl Etholiad 1868—wedi colli'r hên gartref symudwyd i Talgarreg i fyw. Saer oedd wrth ei alwedigaeth ac am flynyddoedd dilynodd ei alwedigaeth yng Nghaerdydd—ystyrrid ef yn grefftwr medrus yn enwedig mewn adeiladu tai. Er's blynyddoedd bellach trigai'n y lle uchod a chafwyd ef yn ffyddlon iawn yn y gwasanaethau ym Mwlchy-Fadfa ; anfynych y collai oedfa os y gallai ddod. Cymerai gryn ddiddordeb ym materion y dydd. Darllenai newyddiaduron yn llwyr—yn fwy llwyr na'r cyffredin. Er's tro maith, yn herwydd llesgedd corfforol nis gallai ddod i'r gwasanaeth ac i lawer o honom yr oedd ei le'n wâg. Yr oedd o anian ddefosiynol ac yn wrandawr da a chynorthwyol. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym Mwlchy-Fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Nodion yr Eglwysi.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL.—Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas yn y Cribyn, dyddiau Mawrth a Mercher, Awst 9 a 10. Ceir manylion pellach yn y Rhifyn nesaf ynghyd â Rhaglen y Pwyllgor.

CWMMWRDU.—Os na chyfyd rhwystr cynhelir dwy oedfa bregethu yn y lle hwn nawn a hwyr Iau, Awst 11, i ddathlu canmlwyddiant adeiladu'r capel. Ceir manylion pellach eto.—E. O. JENKINS.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Prynhawn dydd Iau, Mehefin yr ail, 1932, cynhaliwyd gwyl de a gwerthiant nwyddau yn Ysgoldy yr Hen Dy Cwrdd dan nawdd Urdd y Benywod. Daeth cynhulliad lluosog iawn ynghyd. Cafodd Aelodau yr Urdd amser prysur wrth weini i anghenion pawb wrth y byrddau a'r stondin werthu. Teilynga aelodau yr Urdd ein diolchgarwch gwresocaf am eu hymdrechion dros yr eglwys. Yr wyf bron a chredu fod haint y diwaith wedi treiglo i'r eglwys parthed y gwrywod, canys amlwg yw mai dim ond Urdd y Benywod a ddengys fywyd gweithgar. Chwiliant gan ddarganfod cynlluniau o hyd er chwyddo trysorfa yr eglwys. Bendith fyddai i'r gwrywod gymeryd gwers a dogn o ysbryd gweithgar Urdd y Benywod.

CYMANFA GERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION.—Bydd y Pwyllgor Blynyddol yn cyfarfod yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd, Sul, Gorffennaf 10, 1932, am 5.30 o'r gloch.

Agenda :

(1) Dewis Swyddogion newydd.

(2) Arweinydd am 1933.

(3) Derbyn tonau ar gyfer y Rhaglen.

—DAN DAVIES, *Ysgrifennydd.*

Y mae rhai "Nodion yr Eglwysi" mewn llaw. Cânt ymddangos yn y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.